**Adroddiad i'r:** Cabinet

**Dyddiad y Cyfarfod:** 25 Mawrth 2014

**Aelod/Swyddog Arweiniol:** Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill/Paul McGrady

**Awdur yr Adroddiad:** Richard Weigh, Prif Gyfrifydd

**Teitl:** Adroddiad Cyllid

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi manylion am gyllideb refeniw ac arbedion y Cyngor fel y cytunwyd arnynt ar gyfer 2013/14. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad cryno o'r Cynllun Cyfalaf yn ogystal â'r Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Pwrpas yr adroddiad yw rhoi diweddariad ar sefyllfa ariannol bresennol y cyngor.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod aelodau'n nodi'r cynnydd yn erbyn strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni.

Bod aelodau'n cymeradwyo'r trosglwyddo canlynol i gronfa wrth gefn fel y nodir yn Adran 6:

- £23miliwn i'r gronfa Cynllunio mewn perthynas â ffioedd a dderbyniwyd yn y flwyddyn gyfredol, ond sy'n ymwneud â gwariant yn 2014/15

Mae **Atodiad 5** yn dangos manylion yr holl drosglwyddiadau i ac o gronfeydd wrth gefn y cytunwyd arnynt gan y Cabinet yn ystod y flwyddyn.

## 4. Manylion am yr Adroddiad

Mae'r adroddiad yn rhoi crynodeb o gyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer 2013/14 **(Atodiad 1)**. Mae cyllideb net y Cyngor yn £192miliwn. Ar ddiwedd mis Chwefror, mae rhagolwg tanwariant ar gyllidebau corfforaethol a gwasanaeth o £1.412miliwn (£991mil y mis diwethaf) sy'n cynrychioli amrywiant o 1.11%.

Mae **Atodiad 2** yr adroddiad yn dangos y cynnydd hyd yma yn erbyn yr arbedion a amlygwyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2013/14. Cytunwyd ar darged arbedion o £3.061miliwn ar gyfer y flwyddyn a hyd yma mae 91% wedi'i gyflawni sy'n gyfanswm o £2.786miliwn.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae rheolaeth effeithiol o gyllidebau refeniw a chyfalaf y cyngor a chyflawni'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd yn sylfaen i weithgareddau ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae'r naratif sy'n cefnogi rhagolygon gwasanaeth wedi ei nodi isod lle bo angen:

**Gwella Busnes a Moderneiddio –** Mae'r tanwariant wedi cynyddu £15mil, o ganlyniad i nifer o amrywiadau bach, ac mae bellach yn £87mil. Mae'r gwasanaeth yn cynnig bod y tanwariant pellach hwn yn cael ei ddefnyddio i helpu i ariannu swydd Partner Busnes Arbenigol ar gyfer TGCh, er mwyn helpu i yrru drwy foderneiddio seilwaith TGCh y Cyngor.

**Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd –** mae'r cynnydd yn y tanwariant yn ymwneud â gostyngiadau pellach mewn costau canfasiwr.

**Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol -** nawr yn rhagweld tanwariant o £58mil. Mae'r symudiad yn y rhagamcan hwn ers y mis diwethaf yn golygu lleihau rhywfaint o'r arian wrth gefn oedd wedi'i adeiladu'n flaenorol (e.e. ar gyllideb Cynnal a Chadw'r Gaeaf). Mae'r rhagamcanion yn dal yn cynnwys nifer o ragdybiaethau a fydd yn parhau i gael eu hasesu yn ystod yr wythnosau nesaf. Mae £58mil pellach o'r gostyngiad yn ymwneud â'r broses gaffael fflyd gynlluniedig sy'n ymwneud ag ysgubwyr ffordd. Mae hyn wedi cael ei ohirio tan y flwyddyn ariannol nesaf oherwydd yr angen i weithredu ailstrwythuro'r Gwasanaethau Stryd. Cynigir bod y £58mil o danwariant yn cael ei ddwyn ymlaen er mwyn helpu i dalu am y buddsoddiad hwn yn y gwasanaeth newydd yn gynnar yn 2014/15.

**Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd –** mae'r cynnydd mewn tanwariant yn ymwneud â ffioedd cynllunio a dderbyniwyd ar gyfer Ysgol Uwchradd y Rhyl a safle HM Stanley. Roedd ffi Ysgol Uwchradd y Rhyl yn £47mil ac argymhellir bod hanner y ffi hon yn cael ei throsglwyddo i gronfa wrth gefn Cynllunio i gyfateb costau yn 2014/15.

**Gwasanaethau Plant** – mae'r sefyllfa bresennol a adroddwyd arni yn danwariant o £549mil (£469mil y mis diwethaf). Mae'r arbedion ychwanegol o ganlyniad i'r oedi wrth brynu offer TGCh newydd fel rhan o'r broses o foderneiddio gofal cymdeithasol (dyfeisiau a ddelir â llaw, meddalwedd newydd ac ati) yn dod i £61mil. Er bod archebion wedi cael eu rhoi ar gyfer yr holl nwyddau, yn anffodus mae'r cyflenwr nawr yn y broses o uwchraddio'r pecyn i fersiwn newydd ac ni fydd hwn ar gael tan yr haf 2014. Felly, mae'n rhaid i rywfaint o'r tanwariant presennol gael ei glustnodi ar gyfer y costau hyn yn gynnar yn 2014/15. Mae'r gwasanaeth yn datblygu cynigion buddsoddi i arbed mewn perthynas â'r gwasanaeth maethu a chynigir bod rhywfaint o'r tanwariant presennol yn cael ei ddefnyddio at y diben hwn. Bydd rhagor o fanylion ar gael yn yr adroddiad nesaf.

**Tai a Datblygu Cymunedol** – mae’r cynnydd yn y tanwariant yn ymwneud â llithriad ar brosiect digartrefedd. Bydd y gwariant yn cael ei wario yn gynnar yn 2014/15.

**Adnoddau Dynol Strategol –** mae’r tanwariant yn ymwneud â chyllidebau staffio yn y gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol a llai o ddefnydd o wasanaethau meddyg.

**TGCh a Thrawsnewid Busnes** - Mae'r gwasanaeth bellach yn dangos tanwariant o £154mil. Mae'r rhan fwyaf o hwn yn ymwneud ag oedi wrth gyflwyno prosiectau sy'n ymwneud â Strategaeth TGCh Cam 2 ac mae’r gwasanaeth yn cynnig bod £93mil o'r tanwariant yn cael ei ddwyn ymlaen er mwyn sicrhau bod y Strategaeth yn cael ei hariannu'n llawn wrth symud ymlaen. Mae £57mil pellach o'r tanwariant yn ymwneud â grant a gadarnhawyd y mis diwethaf. Fodd bynnag, derbyniwyd cadarnhad o hyn yn rhy hwyr yn y flwyddyn ariannol er mwyn cyflawni'r amodau grant mewn modd effeithiol ac effeithlon. Cynigir felly bod y swm hwn yn cael ei gario ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf ar gyfer y gwasanaeth i gyflawni'r ymrwymiad i LlC mewn perthynas â'r grant hwn.

**Gwella Ysgolion a Chynhwysiant** - Mae'r gwasanaeth erbyn hyn yn dangos tanwariant o £61mil. Mae'r tanwariant yn cynnwys £40mil sy’n ymwneud â llai o alw na'r disgwyl yn erbyn y ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar, a £21mil yn ymwneud ag elfen o'r gwasanaeth Arolygwyr Ysgol a ymgymerir bellach gan y gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol GwE. Cynnig y gwasanaeth yw bod £45mil o'r tanwariant yn cael ei ddwyn ymlaen er mwyn helpu i ariannu costau sy’n ymwneud ag ailstrwythuro sydd wedi hwyluso nifer o arbedion yn 2014/15.

**Ysgolion** - ar ddiwedd mis Chwefror mae’r rhagamcaniad ar gyfer balansau ysgolion yn £3.268miliwn, sy’n symudiad cadarnhaol o £398mil ar y balansau a ddygwyd ymlaen o 2012/13 (£2.870miliwn). Mae'r cyngor yn cefnogi dwy ysgol mewn anhawster ariannol a bydd yn parhau i gynnig y gefnogaeth hon drwy'r broses adfer i 2014-15. Mae gan y ddwy ysgol Benaethiaid dros dro sy’n ymwneud yn llawn â'r broses adfer ac maent yn gweithio gyda'r Awdurdod Lleol yn unol â hynny. Mae’r gyllideb nad yw’n ddirprwyedig yn rhagweld tanwariant o £65mil ar hyn o bryd.

Cyllidebau **corfforaethol -** yn cynnwys £200mil wrth gefn i dalu am gostau refeniw'r llifogydd ym mis Rhagfyr (£250mil yn flaenorol). Mae'r symudiad o £50mil sy’n weddill ers y mis diwethaf yn ymwneud â chost uwchraddio TGCh mewn perthynas â seilwaith CAG sydd bellach yn cael ei amsugno gan y gwasanaethau, yn hytrach nag o'r gyllideb moderneiddio gorfforaethol.

O ran y llifogydd, derbyniwyd cadarnhad yn ddiweddar am gymorth grant gan Lywodraeth Cymru o £701mil, wedi'i dargedu at y gwaith o adfer seilwaith amddiffyn yr arfordir. Roedd y cadarnhad yn cynnwys darpariaeth i ddwyn unrhyw danwariant grant yn 2013/14 ymlaen i 2014/15. Mae'n debygol y bydd yna £256mil o gyllid grant mewn perthynas ag Atgyweiriadau Isadeiledd Twristiaeth hefyd. Mae'r hawliad mae’r cyngor wedi’i gyflwyno o dan y cynllun

rhyddhad EFAS sy'n cwmpasu costau ymateb cychwynnol yn annhebygol o gael ei gymeradwyo gan nad yw'n cyrraedd y trothwy ariannol gofynnol.

Rhagwelir y bydd cronfeydd arian wrth gefn y **Cynllun Corfforaethol** yn £14.7miliwn erbyn diwedd y flwyddyn, gan adael gofyniad ariannol o oddeutu £5.5 miliwn ar gyfer cyflwyno'r Cynllun.

**Rheoli'r Trysorlys -** Ar ddiwedd mis Chwefror, roedd cyfanswm benthyciadau'r cyngor yn £136.704 miliwn ar raddfa gyfartalog o 5.72%. Roedd balansau buddsoddi yn £29.2miliwn ar gyfradd gyfartalog o 0.80%.

Ar 14 Mawrth, roedd cyfradd Banc Brenhinol yr Alban (RBS) wedi gostwng o dan lefel y gwrth-barti sy'n ofynnol yn Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor. Heblaw balansau cyfrif cyfredol y cyngor, mae holl gronfeydd eraill wedi cael eu trosglwyddo i sefydliadau eraill. Mae hwn yn fesur rhagofalus mewn ymateb i'r gostyngiad yng nghyfraddau'r banc - nid yw'n cynrychioli risg sylweddol o ddiffyg y banc.

Y **Cyfrif Refeniw Tai (CRT).** Mae'r sefyllfa refeniw diweddaraf yn rhagdybio cynnydd mewn balansau ar ddiwedd y flwyddyn o £159miliwn, sy'n welliant o £260miliwn ar dybiaeth y gyllideb. Mae'r rhagolwg Cynllun Cyfalaf Tai yn parhau i fod yn £7.5miliwn. Dylai Safon Ansawdd Tai Cymru gael ei gyflawni ym mis Ebrill 2014. Amcangyfrifir y bydd cost dileu dyledion y CRT yn £50mil yn y flwyddyn gyfredol sydd yn unol â'r rhagolwg yn y gyllideb.

Mae crynodeb o'r **Cynllun Cyfalaf** wedi'i amgáu fel **Atodiad 3**. Mae'r cynllun cyfalaf cyffredinol a gymeradwywyd yn £36.1miliwn ac roedd y gwariant hyd at ddiwedd mis Chwefror yn £25.2 miliwn. Ar gyfer rhywfaint o bersbectif ar y rhagolwg, ym mis Mawrth 2013 roedd cyfanswm y gwariant cyfalaf yn £12.5miliwn. Hefyd wedi ei gynnwys yn Atodiad 3 mae'r gwariant arfaethedig o £6.6 miliwn ar y **Cynllun Corfforaethol.**

Mae **Atodiad 4** yn rhoi diweddariad ar y prif brosiectau yn y Cynllun Cyfalaf.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r asesiad a wnaed o effaith y penderfyniad hwn ar gydraddoldeb?**

Cyflwynwyd crynodeb o'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb i'r Cyngor ym mis Chwefror 2013.

**8. Pa ymgynghori a wnaed gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

Cynhaliwyd heriau gwasanaeth gyda phob pennaeth gwasanaeth ac roedd pob her yn cynnwys cynrychiolwyr o'r pwyllgor craffu a'r Cabinet. Cynhaliwyd gweithdai Cynllun Corfforaethol a Chyllideb gydag aelodau ym mis Medi, Tachwedd a Rhagfyr. Cafodd y cynllun cyfalaf ei gymeradwyo gan y Cyngor ar ôl ei archwilio gan y Grŵp Buddsoddi Strategol ac argymhelliad gan y Cabinet.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'n bwysig bod gwasanaethau'n parhau i reoli cyllidebau'n ddoeth a bod unrhyw arian dros ben yn ystod y flwyddyn yn cael ei ystyried yng nghyd-destun y sefyllfa ariannol tymor canolig, yn arbennig o ystyried graddfa gostyngiadau angenrheidiol yn y gyllideb yn ystod y ddwy flynedd nesaf.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Dyma'r cyfnod ariannol mwyaf heriol y mae'r cyngor wedi ei wynebu a bydd methu cyflawni'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd yn rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau yn y flwyddyn ariannol gyfredol ac yn y dyfodol. Bydd monitro a rheoli'r gyllideb yn effeithiol yn helpu i sicrhau bod y strategaeth ariannol yn cael ei chyflawni.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol.